***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 1153 (Cy.60)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro) (Cyfalaf Cychwynnol) (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *19 Mawrth 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Mawrth 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan adran 9(1) ac (8) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990(**1**) a phob pwer arall sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol yn y cyswllt hwnnw, ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**)**,** gyda chydsyniad y Trysorlys(**3**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro) (Cyfalaf Cychwynnol) (Cymru) 2001 a daw i rym ar 31 Mawrth 2001.

(2) Bydd y Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Cyfalaf Cychwynnol Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol

**2.** Cyfalaf cychwynnol Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro fydd Cant naw deg pedwar miliwng, cant pedwar deg dau o filoedd o bunnoedd (£194,142,000).

(**1**) 1990 p.19. Diwygiwyd adran 9(1) gan adran 15 o Ddeddf Iechyd 1999 (p.8.)

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 9(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 ("Deddf 1990") i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672) ("y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau").

(**3**) Gweler adran 9(8) o Ddeddf 1990. Mae'r cydsyniad y mae ei angen oddi wrth y Trysorlys wedi'i gadw yn unswydd gan Atodlen 1 i'r Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

*D. Elis Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

13 Mawrth 2001

Cydsyniwn,

*Greg Pope*
*Jim Dowd*
Dau o Arglwydd Gomisiynwyr Trysorlys Ei Mawrhydi

19 Mawrth 2001

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn penderfynu swm cyfalaf cychwynnol Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro a sefydlwyd o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990, sef cyfalaf cychwynnol y darperir ar ei gyfer yn adran 9 o'r Ddeddf honno.